

## Datganiad Cydraddoldeb

### **Cyflwyniad**

Mae'r datganiad cydraddoldeb hwn yn cyd-fynd â dogfen ymgynghori y Weinyddiaeth Gyfiawnder (WG), 'Rheoliadau Pensiynau Barnwrol (Diwygio) 2024'. Yn unol â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, o dan a149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (EA 2010), mae'n ystyried effeithiau posibl y rheoliadau drafft ar gydraddoldeb.

### **Cefndir**

Dechreuodd y Cynllun Pensiwn Barnwrol i Farnwyr y Telir Ffi Iddynt (FPJPS) ar 1 Ebrill 2017 yn dilyn penderfyniad ym mis Chwefror 2013 gan y Goruchaf Lys yn O'Brien v Y Weinyddiaeth Gyfiawnder [2013] UKSC 6 bod barnwyr y telir ffi iddynt wedi cael eu trin yn llai ffafriol na barnwyr cyflogedig llawn amser perthnasol oherwydd nad oedd ganddynt hawl i bensiwn. I ddechrau, nid oedd FPJPS ond yn darparu buddion pensiwn ar gyfer gwasanaeth cymwys y talwyd ffi amdano ar neu ar ôl 7 Ebrill 2000, y dyddiad y daeth y Gyfarwydddeb Gweithwyr Rhan Amser (PTWD) i rym, dylai'r Gyfarwydddeb hon fod wedi dileu triniaeth lai ffafriol.

Ym mis Tachwedd 2018, rhoddodd Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd ddyfarniad yn achos O'Brien v Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Achos C-432/17) — ymgyfreitha *O'Brien 2*, gan ddod i'r casgliad bod rhaid ystyried gwaith rhan-amser a wnaed cyn y dyddiad cau ar gyfer trawsgludo'r PTWD at ddibenion cyfrifo pensiwn ymddeol. Yn dilyn y penderfyniad hwn, daeth Rheoliadau Diwygio Pensiynau Barnwrol (Barnwyr y Telir Ffi iddynt) (Diwygiadau FPJPS) i rym ar 1 Ebrill 2023 i ddarparu buddion pensiwn ar gyfer gwasanaeth cymwys y talwyd ffi amdano cyn 7 Ebrill 2000.

Ar 1 Ebrill 2015, cafodd y rhan fwyaf o weithwyr gwasanaethau cyhoeddus eu symud i gynlluniau pensiwn diwygiedig mewn perthynas â gwasanaeth o'r dyddiad hwnnw. Yn unol â'r diwygio pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ehangach hwn, sefydlwyd Cynllun Pensiwn Barnwrol 2015 (JPS15) ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol cymwys y telir ffi iddynt a chyflogedig. Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr 2018 canfu'r Llys Apêl fod yr amddiffyniad trosiannol a gynigiwyd i rai aelodau o gynlluniau'r barnwyr — a oedd yn eu galluogi i naill ai aros yng nghynllun Deddf Pensiwn Barnwrol ac Ymddeol 1993 (JUPRA) ac FPJPS am weddill eu gwasanaeth, neu i drosglwyddo i JPS 2015 ar ddyddiad hwyrach nag 1 Ebrill 2015 - wedi arwain at wahaniaethu anghyfreithlon ar sail oedran, hil a rhyw. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi rhoi ateb i'r gwahaniaethu hwn ar waith ar wahân.

Ar 1 Ebrill 2022 gweithredwyd Cynllun Pensiwn Barnwrol newydd, Cynllun Pensiwn Barnwrol 2022 (JPS22) i fynd i'r afael â materion recriwtio a chadw yn y farnwriaeth a achoswyd gan JPS15. JPS22 bellach yw'r unig gynllun sydd ar agor i gronfeydd.

Ceir rhagor o wybodaeth am effaith y cynlluniau hyn ar gydraddoldeb yn ymgynghoriad 2020 ar ddiwygiadau FPJPS<sup>1</sup>, a'r memoranda esboniadol i reoliadau Pensiynau Barnwrol (Barnwyr y Telir Ffi Iddynt) (Diwygio) 2021<sup>2</sup> a Diwygiadau FPJPS.<sup>3</sup>

### **Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**

---

<sup>1</sup> [\[Title\] \(publishing.service.gov.uk\)](#)

<sup>2</sup> [The Judicial Pensions \(Fee-Paid Judges\) \(Amendment\) Regulations 2021 - Draft Explanatory Memorandum \(legislation.gov.uk\)](#)

<sup>3</sup> [The Judicial Pensions \(Fee-Paid Judges\) \(Amendment\) Regulations 2023 - Explanatory Memorandum \(legislation.gov.uk\)](#)

Mae adran 149 o EA 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, wrth arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan y Ddeddf;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu; a
- meithrin cysylltiadau da rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

Mae naw nodwedd warchoddedig yn y Ddeddf: rhyw, hil, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, a beichiogrwydd a mamolaeth.

## Cynigion

Bydd prif ddiwygiadau Diwygiadau 2024 yn hwyluso (ymysg pethau eraill):

- cywiro nifer o faterion technegol yn FPJPS a JPS22.
- cynnwys rhagor o swyddi barnwrol yn FPJPS a JPS22.
- cynnwys mecanwaith rheoli costau (CCM) yn JPS 22 fel sy'n ofynnol i fod mewn grym gan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 (PSPA 13) o fewn blwyddyn sy'n dechrau ar y diwrnod y cwblheir prisiad cyntaf y cynllun.
- ymestyn y dyddiadau cau ar gyfer etholiadau aelodau yn rheoliadau FPJPS.

Ystyriaethau cydraddoldeb

Nid yw'r rheoliadau drafft yn gwahaniaethu'n uniongyrchol o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010 gan na fyddant yn trin unrhyw farnwyr yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchoddedig.

Nid ydym yn ystyried y bydd y rheoliadau drafft yn gwahaniaethu yn anuniongyrchol o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010.

Ni nodwyd unrhyw anfantais benodol i aelodau'r farnwriaeth sydd â nodweddion gwarchoddedig ar gyfer y rhan fwyaf o'r diwygiadau. Lle mae posibilrwydd o anfantais arbennig, fe'u nodir isod.

Er ein bod wedi nodi rhai effeithiau sy'n ymwneud â nodwedd warchoddedig oedran, rydym o'r farn bod y gwelliannau serch hynny yn gadarnhaol o ran triniaeth gyfartal. Mae paragraffau canlynol yr ymgynghoriad ar Ddiwygiadau drafft 2024 (yr "**Ymgynghoriad**") yn tynnu sylw at yr effeithiau a nodwyd:

Cost prynu unedau ychwanegol o fudd o dan y Cynllun Buddion Ychwanegol i Farnwyr y Telir Ffi Iddynt

*Newid o ddefnyddio gwerth cyflog pro-rata i werth cyflog wedi'i bwysoli [paragraffau 78 i 81]*

Ar hyn o bryd, byddai rhai barnwyr y telir ffi iddynt sydd wedi ymddeol yn talu cost uwch am bob uned ychwanegol o fudd a brynwyd o dan y Cynllun Buddion Ychwanegol Barnwrol y Telir Ffi Iddynt (FPJABS) nag y byddai barnwyr cyflogedig wedi'i dalu yn hanesyddol o dan y cynllun cyfatebol Buddion Ychwanegol i Farnwyr (JABS). Byddai'r anghysondeb hwn yn cael ei ddileu gan ein cynnig arfaethedig i roi gwerth cyflog wedi'i bwysoli yn lle'r gwerth cyflog pro-rata (PRS) yn narpariaethau FPJABS. Gan y bydd y barnwyr y telir ffi iddynt bellach yn gymwys ar gyfer FPJABS yn tueddu i fod yn hŷn nag yr oedd y barnwyr cyflogedig pan wnaethant brynu JABS byddai hyn yn effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb.

### *Atodlen ddiwygiedig o ffigurau canran buddion personol a theuluol [paragraffau 85 i 91]*

Ar hyn o bryd mae'r fformiwlâu a ddefnyddir i gyfrifo cost unedau budd ychwanegol FPJABS yn dibynnu ar ffigurau canran budd personol a theuluol a nodir yn Atodlen 3 i Reoliadau Pensiynau Barnwrol (Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol) 1995 (rheoliadau AVC). Rydym yn cynnig disodli'r rhain gyda ffigurau a fydd yn cael eu cynnwys o fewn atodlen newydd (Atodlen 4) i reoliadau FPJPS. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu canllawiau actiwaraid a bydd yn mynd i'r afael ag anghysondeb presennol sy'n gwneud cost unedau FPJABS yn rhy isel i rai aelodau cymwys o'i gymharu â JABS ac FPJAYS (fel y diffinnir isod). O'r herwydd, mae'r sefyllfa bresennol yn tueddu i ffafrio barnwyr cymharol hŷn, gan brynu FPJABS, dros farnwyr cymharol iau a allai fod yn fwy tebygol o brynu blynyddoedd ychwanegol o dan y Cynllun Blynyddoedd Ychwanegol Barnwyr y Telir Ffi Iddynt (FPJAYS). Dylai'r newid felly gael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb yn gyffredinol. Nodwn y gallai fod rhywfaint o effaith niweidiol i aelodau â gwasanaeth mewn swyddi yn Nhablau 2 a 3 yn Atodlen 1 i reoliadau FPJPS, gan gynnwys aelodau sydd heb ymddeol ac aelodau wedi ymddeol a eisteddodd ar gyfran uchel iawn o ddiwrnodau (mwy na 80% o werth rhannwr y swydd). Fodd bynnag, rydym yn ystyried y bydd y newidiadau yn gosod costau uned FPJABS ar gyfer pob aelod cymwys ar lefel briodol a byddant yn osgoi gwahaniaethu posibl yn erbyn barnwyr cymharol iau. Bydd yr atodlen newydd hefyd yn nodi ffigurau canrannol ar gyfer barnwyr hŷn nad oedd yn ofynnol yn rheoliadau AVC.

### Trosi unedau/blynyddoedd buddion ychwanegol

#### *Atodlen ddiwygiedig o ffigurau credyd gwasanaeth [paragraffau 92 i 97]*

Ar hyn o bryd mae'r fformiwlâu a ddefnyddir i drosi unedau FPJABS i mewn i flynyddoedd ychwanegol FPJAYS (ac i'r gwrthwyneb) yn dibynnu ar ffigurau credyd gwasanaeth a nodir yn Atodlen 1 i Reoliadau Pensiynau Barnwrol (Trosglwyddo Rhwng Cynlluniau Pensiwn Barnwrol) 1995 (y rheoliadau Trosglwyddo). Rydym yn bwriadu disodli'r rhain gyda ffigurau a fydd yn cael eu cynnwys o fewn atodlen newydd (Atodlen 5) i reoliadau FPJPS. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu canllawiau actiwaraid. I nifer fach iawn o aelodau cymharol iau, bydd y ffigurau diwygiedig yn golygu cyfradd trosi FPJABS ychydig yn llai ffafriol i FPJAYS mewn rhai amgylchiadau. Fodd bynnag, rydym yn ystyried y bydd y newidiadau yn golygu y bydd cyfraddau trosi, wrth symud ymlaen, yn cael eu gosod ar y gyfradd briodol ar gyfer aelodau o bob oed. Bydd yr atodlen newydd hefyd yn nodi ffigurau canrannol ar gyfer barnwyr hŷn nad oedd yn ofynnol yn y rheoliadau Trosglwyddo.

### Cost prynu blynyddoedd ychwanegol o dan y Cynllun Blynyddoedd Ychwanegol i Farnwyr y Telir Ffi Iddynt

#### *Eithrio'r lluosydd 1.25 yn rheoliad 107(3)(b) [paragraffau 98-101]*

Roedd Diwygiadau FPJPS yn darparu ar gyfer gwerth lluosydd o 1.25 i'w gymhwyso i ddiwrnodau cymwys y telir ffi amdanynt mewn amgylchiadau penodol gweler paragraff 99 yn yr ymgynghoriad. Rydym yn cynnig eithrio'r lluosydd 1.25 o'r diffiniad o "B" yn rheoliad 107(3)(b), sy'n ymwneud â gwasanaeth y gellir ei gyfrif ac sy'n bwydo i gyfrifo ehangach y cyfraniad gofynnol at yr FPJAYS gan aelodau wedi ymddeol. Mae cynnwys y lluosydd yn anfwriadol ar hyn o bryd yn tueddu i leihau swm y cyfraniad sy'n daladwy gan aelodau wedi ymddeol cymharol hŷn o'i gymharu ag aelodau sydd heb ymddeol (a'r barnwyr cyflogedig a brynodd flynyddoedd ychwanegol yn hanesyddol). Bydd ein diwygiadau arfaethedig i FPJAYS yn sicrhau bod cyfrifiadau blynyddoedd ychwanegol FPJAYS i farnwyr wedi ymddeol yn gyson â'r rhai ar gyfer aelodau sydd heb ymddeol. Dylai'r newid felly gael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb.

### **Gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd a dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol**

Byddwn yn ystyried unrhyw addasiadau rhesymol y gellir eu nodi o'r ymgynghoriad.

**Aflonyddu ac erledigaeth:** Nid ydym yn ystyried bod risg o aflonyddu neu erledigaeth wrth weithredu ein rheoliadau drafft.

**Hyrwyddo cyfle cyfartal:** Rydym yn ystyried y gallai'r cynigion effeithio'n gadarnhaol ar y ddyletswydd i hyrwyddo cyfle cyfartal mewn perthynas ag oedran.

**Meithrin cysylltiadau da:** Nid ydym yn ystyried bod y cynigion hyn yn berthnasol i'r rhwymedigaeth hon.

## Data

Ni ellir penderfynu ar union nifer y Barnwyr y bydd y diwygiadau arfaethedig yn effeithio arnynt. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth isod yn nodi niferoedd bras ar gyfer y categorïau o farnwyr y mae'n bosibl y byddant yn effeithio arnynt.

Amrywiaeth Barnwyr: Mae Ystadegau 2023<sup>4</sup> (a nodir yn Nhabl 3.1) yn cyflwyno ffigurau cyffredinol ar y barnwyr y telir ffi iddynt. Mae dadansoddiad ad hoc yn ôl grŵp oedran wedi'i nodi yn Nhabl 1 isod. Dylid nodi, fodd bynnag, bod hyn yn cymryd y farnwriaeth y telir ffi iddynt yn ei chyfanrwydd ac felly yn cynnwys barnwyr sydd hefyd â gwasanaeth yn y cynlluniau JPS15 a JPS22 yn unig. Felly, gall canran y barnwyr ym mhob categori mewn perthynas ag FPJPS amrywio ychydig o'r hyn a nodir yn Nhabl 1. Dylid nodi hefyd y gallai fod rhai swyddi datganoledig sy'n cael eu cwmpasu gan FPJPS na fyddant efallai yn cael eu cynnwys yn y data.

Tabl 1: Cyfran y barnwyr y telir ffi iddynt yn eu swydd fel ag yr oedd ar 1 Ebrill 2023 mewn Llysoedd a Thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr yn ôl grŵp oedran — gweler hefyd Nodiadau 1 i 3 isod.

Grŵp oedran	O dan 40	40-49	50-59	60-69	70 ac yn hŷn
Canran barnwyr y telir ffi iddynt	9%	29%	30%	27%	5%

Nodyn 1: Mae'r ystadegau yn cynnwys pob Tribiwnlys a weinyddir gan GLITEF ac yn eithrio tribiwnlysoedd eraill.

Nodyn 2: Mae'r ystadegau hefyd yn cynnwys deiliaid swyddi gan gynnwys mewn Tribiwnlysoedd Haen Gyntaf ac Uchaf yn yr Alban/Gogledd Iwerddon mewn awdurdodaethau sydd â chylch gwaith Prydain Fawr/DU gyfan.

Nodyn 3: Gweler y troednodiadau ar gyfer ystadegau Amrywiaeth barnwyr 2023: Tabl 3.1: Prif benodiad Barnwyr ac Aelodau nad ydynt yn Aelodau Cyfreithiol mewn Llysoedd a Thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr: oedran a math o gontract yn ôl penodiad ar gyfer nodiadau pellach.

<sup>4</sup> [Diversity of the judiciary: 2023 statistics - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/statistics/diversity-of-the-judiciary-2023-statistics)

Disgwylir y bydd ystod oedran y rhai y mae newidiadau FPJABS a'r FPJAYS yn effeithio arnynt yn fwy tebygol o fod o fewn y categorïau 60-69 a 70 ac yn hŷn.

Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Cynllun Pensiynau Barnwrol yn nodi bod 5,966 o aelodau FPJPS ar 31 Mawrth 2023. Disgwylir y byddai mwyafrif aelodau FPJPS (disgwylir mwy na 90%) yn gymwys i brynu naill ai FPJABS neu FPJAYS. Nid yw demograffig oedran yr aelodau penodol hyn yn cael ei gofnodi ond byddai'r aelodau hyn wedi cael eu cynnwys yn ystadegau Tabl 1.

Mae Adran Actiwari'r Llywodraeth yn awgrymu bod y gwahaniaeth oedran cyfartalog rhwng barnwyr sydd â hawl i fuddion o dan ddarpariaethau FPJPS cyn 1995 (a allai fod yn gymwys i brynu FPJABS), a'r rhai sydd â hawl i fuddion o dan ddarpariaethau ôl-1995 (a allai fod yn gymwys i brynu FPJAYS) tua 10 mlynedd. Mae hwn yn ffactor arwyddocaol sy'n cyfiawnhau'r dull a nodir uchod.

### **Casgliad**

Yn gyffredinol, ystyriwn y bydd ein gwelliannau arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb, yn benodol drwy:

- Darparu hawliau pensiwn ôl-weithredol ar gyfer sawl swydd gymwys arall lle telir ffi.
- Ymestyn sawl dyddiad cau yn FPJPS i sicrhau y gall aelodau yr effeithir arnynt wneud dewisiadau gwybodus ynghylch y buddion sydd ar gael iddynt sy'n deillio o ymglyfreitha O'Brien.
- Darparu ar gyfer y mecanwaith rheoli costau i gwmpasu cynlluniau JPS15 a JPS22.

Fodd bynnag, rydym wedi nodi'r potensial o anfantais arbennig sy'n ymwneud â nodwedd warchoddedig oedran mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig yr ydym yn asesu eu bod yn cael eu cyfiawnhau'n wrthrychol fel yr amlinellwyd am y rhesymau a nodir yn yr adrannau perthnasol uchod.

Yn seiliedig ar yr asesiadau hyn rydym yn ystyried bod yr effeithiau cyfyngedig yn cael eu cyfiawnhau'n wrthrychol, ac mae'r pecyn cyffredinol o ddiwygiadau arfaethedig yn gyson â'r gofynion a nodir yn a149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Byddwn yn parhau i fonitro effeithiau cydraddoldeb ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad, gan ystyried unrhyw ymatebion a dderbyniwyd.